Cardiff Council Update: 17th July

Welcome to the last update of the week from Cardiff Council, covering: Cardiff Castle lights up in response to global coronavirus pandemic; latest on the reopening of play areas and outdoor gyms; another Hub reopens on Monday; and celebrating all things silly with the Summer Reading Challenge.

Cardiff castle lights up in response to global coronavirus pandemic

On Thursday night, Cardiff Castle was illuminated in support of the Disasters Emergency Committee's Coronavirus Appeal, which is raising money to help the world's most fragile states threatened by Covid-19.

The appeal, which was launched on Tuesday (14 July), brings together 7 leading charities in Wales, who are already on the ground in places like Yemen, Syria, and South Sudan, helping communities to tackle the deadly coronavirus threat.

Councillor Huw Thomas, the Leader of Cardiff Council, said: "In Cardiff, we are blessed in having strong and diverse communities, communities that have come together to support each other through the current coronavirus pandemic. However, many of our residents come from places where coronavirus will have a devastating impact.

"War-torn fragile places such as Yemen, Syria and South Sudan where millions of lives are at stake as Covid-19 hits. As someone who has first-hand experience of the work that DEC members do, I know that every penny raised from the Coronavirus Appeal will reach those most in need.

“I'm very happy to see our magnificent castle here in Cardiff, being used to help aid this appeal. Let’s come together, in Cardiff and throughout Wales, to show our solidarity and support for our neighbours overseas, and give them the best opportunity to deal with coronavirus."

Across Wales, the appeal has already received widespread support, with Wales’ First Minister, Mark Drakeford, releasing a video message earlier this week.

It is hoped that the appeal, which is being matched by the UK government through the Department of International Development’s Aid Match scheme, will help some of the world’s poorest and most vulnerable communities access vital supplies and handwashing facilities.

The Chair of the DEC in Wales, Rachel Cable from Oxfam Cymru, has urged the people of Wales to back the appeal, adding:

“Wales is a small nation but has a big heart. Please support this appeal with a donation, however big or small, as soon as you can.”

Donate to the DEC Emergency Appeal at:
www.dec.org.uk

Via text: Text HELPU to 70150 to donate £10 or on 0370 60 60 900.

Please send cheques to DEC Coronavirus Appeal, PO Box 999, London EC3A 3AA.

Latest on the reopening of play areas and outdoor gyms

30 children’s play areas in Cardiff will be re-opened on Monday (20th July) following the removal of Welsh Government restrictions on their use.

All nine of the city’s outdoor gyms will also re-open on Monday.

Play areas are being opened on phased basis, following a safety first approach and with a view to ensuring that children across the city have some play provision in their local area as quickly as possible.

The 30 play areas that will open from lunchtime on Monday are:
Adamsdown Square **(Adamsdown)**; Hodges Square **(Butetown)**; Loudon Square **(Butetown)**; Craiglee Drive **(Butetown)**; Emblem Close **(Caerau);** Heol Homfrey **(Careau)**; Jubilee Park **(Canton)**; Sanatorium Road – Toddler **(Canton)**; Cogan Gardens **(Cathays)**; Green Farm Road **(Ely)**; Beechley Road **(Fairwater)**; Chorley Close **(Fairwater)**; Maitland Road – agility area **(Gabalfa)**; Sevenoaks Park **(Grangetown)**; The Marl – Toddler **(Grangetown)**; The Marl – Junior **(Grangetown)**; Mill Heath Drive **(LIsvane)**; St Martin’s Crescent – Toddler **(Llanishen)**; St Martin’s Crescent – Junior **(Llanishen)**; Coed y Gores **(Pentwyn)**; Chapelwood **(Pentwyn)**; Garth Olwg **(Pentyrch)**; Cyncoed Gardens **(Penylan)**; Shelley Gardens **(Plasnewydd)**; Butterfield Park **(Pontprennau / St Mellons)**;

Fisherhill Way **(Radyr / Morganstown)**; Wyndham Street **(Riverside)**; Beaufort Square **(Splott)**; Wilkinson Close **(Splott)**; Heeol Maes Eirwg **(Trowbridge)**.

For updates on more play areas re-opening, please follow our social media channels.

Read more here:
https://www.cardiffnewsroom.co.uk/releases/c25/24370.html

Llanrumney Hub to reopen on Monday, 20th July

Llanrumney Hub opens again on Monday July 20 on an appointment only basis, for click & collect library services and a range of advice services.

Green recycling & food waste bags can be collected without an appointment

Call our Adviceline ☎ 029 2087 1071 or 📧 advicehub@cardiff.gov.uk for more information.

Celebrating all things silly with Summer Reading Challenge return

The Summer Reading Challenge is back in Cardiff Hubs and Libraries this summer with a focus on fun, fun, fun!

Now in the 21st year of encouraging four to 11 year-olds to enjoy reading six books during the school summer holidays, this year's theme is the Silly Squad celebrating funny books, happiness and laughter and featuring an adventurous team of animals who love to have a laugh and get stuck in to all different kinds of amusing titles!

Presented by The Reading Agency and delivered by public libraries and hubs across the country, the challenge's popularity grows in Cardiff year on year and last year more than 6,500 children took part in the challenge, which seeks to motivate youngsters to maintain their literacy skills outside of school and avoid a summer 'dip'.

This year's challenge will be different to previous years as hubs and libraries across the city continue to reopen in a phased recovery of services following the lockdown measures. Young library members can still borrow books, using the click and collect library service available at a number of hubs and libraries or by taking advantage of the wealth of digital resources, including e-books, e-audiobooks and e-comics available in the online catalogue.

Read more here:
https://www.cardiff.gov.uk/ENG/resident/Libraries-and-archives/summer-reading-challenge/Pages/default.aspx

Diweddariad Cyngor Caerdydd: 17 Gorffennaf

Croeso i ddiweddariad olaf yr wythnos gan Gyngor Caerdydd yn cynnwys: Castell Caerdydd yn cael ei oleuo mewn ymateb i bandemig y coronafeirws byd-eang; y diweddaraf ar ailagor ardaloedd chwarae a champfeydd awyr agored; mae Hyb arall yn ailagor ddydd Llun; a cyfle i wirioni wrth i'r Sialens Ddarllen yr Haf ddychwelyd.

Castell Caerdydd yn goleuo mewn ymateb i bandemig coronafeirws byd-eang

Ar nos Iau, cafodd Castell Caerdydd ei oleuo i gefnogi apêl Coronafeirws y Pwyllgor Argyfwng Trychinebau, sy'n codi arian i helpu gwladwriaethau mwyaf bregus y byd sy'n cael eu bygwth gan Covid-19.

Mae'r apêl, a lansiwyd ddydd Mawrth (14 Gorffennaf), yn dwyn ynghyd 7 elusen flaenllaw yng Nghymru, sydd eisoes ar lawr gwlad mewn lleoedd fel Yemen, Syria, a De Sudan, gan helpu cymunedau i fynd i'r afael â'r bygythiad o'r coronafeirws marwol.

Dywedodd y Cynghorydd Huw Thomas, Arweinydd Cyngor Caerdydd: "Yng Nghaerdydd, rydym wedi'n bendithio gyda chymunedau cryf ac amrywiol, cymunedau sydd wedi dod ynghyd i gefnogi ei gilydd drwy'r pandemig presennol o'r coronafeirws. Fodd bynnag, daw llawer o'n trigolion o leoedd lle y bydd coronafeirws yn cael effaith ddinistriol.

"Mewn mannau bregus sydd wedi'u rhwygo gan ryfel fel Yemen, Syria a De Sudan lle mae miliynau o fywydau yn y fantol wth i Covid-19 fynd ar led. Fel rhywun sydd â

phrofiad uniongyrchol o'r gwaith y mae Aelodau DEC yn ei wneud, gwn y bydd pob ceiniog a godir o'r Apêl Coronafirus yn cyrraedd y rhai sydd â'r angen mwyaf.

"Rwy'n hapus iawn i weld ein Castell godidog yma yng Nghaerdydd, sy'n cael ei ddefnyddio i helpu gyda'r apêl. Beth am ddod at ein gilydd, yng Nghaerdydd a ledled Cymru, i ddangos ein hundod a'n cefnogaeth i'n cymdogion dramor, a rhoi'r cyfle gorau iddyn nhw ddelio â'r coronafeirws?"

Yng Nghymru benbaladr, mae'r apêl eisoes wedi cael cefnogaeth eang, gyda Phrif weinidog Cymru, Mark Drakeford, yn rhyddhau neges fideo yn gynharach yr wythnos hon.

Gobeithir y bydd yr apêl, sy'n cael ei chyfateb gan Lywodraeth y DU drwy gynllun arian cyfatebol yr Adran dros Ddatblygu Rhyngwladol, yn helpu rhai o gymunedau tlotaf a mwyaf bregus y byd i gael gafael ar gyflenwadau hanfodol a chyfleusterau golchi dwylo.

Mae Cadeirydd y DEC yng Nghymru, Rachel Cable o Oxfam Cymru, wedi annog pobl Cymru i gefnogi'r apêl, gan ychwanegu:

"Cenedl fechan yw Cymru ond mae ganddi galon fawr. Cefnogwch yr apêl hon gyda rhodd, waeth pa mor fawr neu fach, cyn gynted ag y gallwch. "

Cyfrannwch i Apêl Argyfwng DEC yn:
www.dec.org.uk

Trwy neges destun: tecstiwch HELPU i 70150 i roi £10 neu ar 0370 60 60 900.

Anfonwch sieciau i Apêl Coronafeirws DEC, Blwch Post 999, Llundain EC3A 3AA.

Y diweddaraf ar ailagor ardaloedd chwarae a champfeydd awyr agored

Caiff 30 o ardaloedd chwarae eu hailagor yng Nghaerdydd ddydd Llun (20 Gorffennaf) ar ôl i Lywodraeth Cymru dynnu'r cyfyngiadau ar eu defnydd yn ôl. Bydd pob un o'r naw campfa awyr agored hefyd yn ailagor ddydd Llun.

Bydd yr ardaloedd chwarae yn cael eu hailagor yn raddol, yn dilyn dull diogelwch yn gyntaf a chyda'r nod o sicrhau bod plant ledled y ddinas yn gallu cael rhyw fath o ddarpariaeth chwarae yn eu hardal leol cyn gynted â phosibl.

Y 30 ardal chwarae a fydd yn agor o ddydd Llun yw:

Adamsdown Square **(Adamsdown)**; Hodges Square **(Butetown)**; Loudon Square **(Butetown)**; Craiglee Drive **(Butetown)**; Emblem Close **(Caerau);** Heol Homfrey **(Careau)**; Parc Jwbilî **(Treganna)**; Sanatorium Road – Plant Bach **(Treganna)**; Gerddi Cogan **(Cathays)**; Green Farm Road **(Trelái)**; Beechley Road **(y Tyllgoed)**; Chorley Close **(y Tyllgoed)**; Maitland Road – ardal ymarferion ystwytho **(Gabalfa)**; Sevenoaks Park **(Grangetown)**; The Marl – Toddler **(Grangetown)**; The Marl – Junior **(Grangetown)**; Mill Heath Drive **(Llys-faen)**; St Martin's Crescent – Plant

Bach **(Llanisien)**; St Martin's Crescent – Plant Iau **(Llanisien)**; Coed y Gores **(Pentwyn)**; Chapelwood **(Pentwyn)**; Garth Olwg **(Pentyrch)**; Gerddi Cyncoed **(Penylan)**; Gerddi Shelley **(Plasnewydd)**; Parc Butterfield **Pontprennau / Llaneirwg)**; Fisherhill Way **(Radur / Pentre Poeth)**; Wyndham Street **(Glan yr Afon)**; Beaufort Square **(Sblot)**; Wilkinson Close **(Sblot)**; Heol Maes Eirwg **(Trowbridge)**.

Ar gyfer diweddariadau ar fwy o ardaloedd chwarae yn ailagor, dilynwch ein cyfryngau cymdeithasol.

Darllenwch fwy yma:
https://www.newyddioncaerdydd.co.uk/releases/w66/24371.html

Hyb Llanrhymni i ailagor ddydd Llun 20 Gorffennaf

Bydd Hyb Llanrhymni yn agor ar Ddydd Llun 20 Gorffennaf, ar sail apwyntiad yn unig ar gyfer gwasanaeth llyfrgell clicio &chasglu a gwasanaethau cyngor.

Gellir casglu bagiau gwastraff bwyd ac ailgylchu heb drefnu apwyntiad

Ffoniwch ein Llinell Gyngor ☎ 029 2087 1071 neu ✉hybcynghori@caerdydd.gov.uk am ragor o wybodaeth.

Cyfle i wirioni wrth i'r Sialens Ddarllen yr Haf ddychwelyd

Mae Sialens Ddarllen yr Haf yn ôl yn Hybiau a Llyfrgelloedd Caerdydd y haf hwn gan roi pwyslais ar gael hwyl a sbri!

Dyma'i hunfed flwyddyn ar hugain o annog plant rhwng 4 a 11 oed i fwynhau darllen chwe llyfr yn ystod gwyliau'r haf. Y thema eleni yw'r Sgwad Wirion sy'n dathlu llyfrau doniol, hapus a siriol ac sy'n dilyn carfan anturiaethus o anifeiliaid sy'n dwlu ar gael chwerthin ac archwilio pob math o deitlau difyr!

Wedi'i chyflwyno gan The Reading Agency a'i ddarparu gan lyfrgelloedd a hybiau cyhoeddus ledled y wlad, mae poblogrwydd yr sialens yn tyfu yng Nghaerdydd flwyddyn ar ôl blwyddyn. Y llynedd bu mwy na 6,500 o blant yn cymryd rhan yn yr sialens, sy'n ceisio cymell pobl ifanc i gynnal eu sgiliau llythrennedd y tu allan i'r ysgol ac osgoi 'dirywiad' yr haf.

Bydd yr sialens eleni yn wahanol i'r blynyddoedd blaenorol wrth i hybiau a llyfrgelloedd ledled y ddinas barhau i agor y gwasanaeth yn raddol ar ôl mesurau'r cyfnod cloi. Gall aelodau'r llyfrgell ifanc fenthyg llyfrau o hyd, gan ddefnyddio'r gwasanaeth llyfrgell clicio a chasglu sydd ar gael mewn nifer o hybiau a llyfrgelloedd neu drwy fanteisio ar y cyfoeth o adnoddau digidol, gan gynnwys e-lyfrau, e-lyfrau sain ac e-gomics sydd ar gael yn y catalog ar-lein.

Derllanwch fwy yma:

https://www.cardiff.gov.uk/CYM/preswylydd/Llyfrgelloedd-ac-archifau/sialens-ddarllen-yr-haf/Pages/default.aspx